Annwyl Gwsmer

# Ymgynghoriad cyhoeddus lleol - Penderfyniad

**Swyddfa Bost Treffynnon**
**50 Y Stryd Fawr, Treffynnon, Sir y Fflint, CH8 7AA**

Rwy'n ysgrifennu i gadarnhau ein bod, yn dilyn cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus lleol ac adolygiad, wedi penderfynu bwrw ymlaen a symud y Swyddfa Bost uchod i mewn i Siop Premier, Stryd Baglitt, Treffynnon, Sir y Fflint, CH8 7TR, lle bydd yn dal i gael ei rhedeg yn null un o'n prif ganghennau.

Mae'r lleoliad yr un peth; fodd bynnag, y enw stryd cywir yw Stryd Baglitt, ac nid Place Victoria fel y dywedwyd yn flaenorol. Mae ein hymddiheuriadau am unrhyw ddryswch y gallai hyn fod wedi achosi.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cyfeiriwyd at y safle fel 'Holywell Stores' gan ddisgwyl ailfrandio. Fodd bynnag, mae'r gweithredydd newydd wedi penderfynu na fydd yn ailfrandio'r siop ac felly bydd yn dal i fod yn siop Premier.

Yn dilyn cadarnhad y bydd y siop n cadw ei brand cyfredol, bydd y safle'n parhau i gael ei redeg fel siop Premier. Felly, mae'r holl gyfeiriadau at y lle yn y deunydd penderfyniad yn defnyddio'r enw masnachu cyfredol, sef Premier.

Hoffwn ddiolch i bawb a neilltuodd amser i roi eu sylwadau a gwybodaeth i ni. Bu'r holl adborth a gawsom yn help i ni ddeall barn cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr yn well a chafodd y sylwadau eu hystyried, ynghyd â'r holl ffactorau perthnasol eraill, wrth i ni wneud ein penderfyniad. Cafodd crynodeb o'r adborth ei amgáu, ynghyd â thaflen wybodaeth sy'n rhoi manylion pellach am y gangen newydd

Ar ôl ystyried yr adborth a gawsom yn ofalus, rydym yn ffyddiog o hyd y bydd dyluniad a lleoliad y gangen newydd yn dal I fodloni anghenion cwsmeriaid, yn ogystal â diogelu hyfywedd hirdymor gwasanaethau Swyddfa'r Post yn y gymuned leol.

Bydd y gangen gyfredol yn cau am 12:30 ddydd Sadwrn 18 Gorffennaf 2026, a bydd y gangen newydd yn agor yn Siop Premier, Maes Fictoria, am 13:00 ddydd Llun 20 Gorffennaf 2026. Os bydd unrhyw amgylchiadau nas rhagwelwyd yn gorfodi newid y dyddiadau hyn, rhoddwn bosteri yn y gangen er mwyn rhoi gwybod I gwsmeriaid.

Pan fydd y gangen yn cael ei throsglwyddo, gall cwsmeriaid sydd ag angen cyfleusterau Swyddfa'r Post ddefnyddio unrhyw wasanaeth Swyddfa'r Post sydd yn gyfleus. Er eich hwylustod, rhoddir manylion isod am gangen Swyddfa'r Post arall:

- Swyddfa Bost Glanrafon, Ffordd Bagillt, Bagillt,CH6 6JB

**Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.**
**Registered Office: 100 Wood Street, London EC2V 7ER.**
Post Office and the Post Office logo are registered trademarks of Post Office Limited.
**Cofrestrwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540.**
**Swyddfa Gofrestredig: 100 Wood Street, Llundain EC2V 7ER.**

Mae'r hysbysiad hwn yn gyson â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Mae darn o'r Ymgynghoriad ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yr eiddoch yn gywir

*Sarah Cottrell*

**Sarah Cottrell**
**Rheolydd Newidiadau Rhanbarthol**
**Swyddfa'r Post Cyfyngedig**

comments@postoffice.co.uk
postofficeviews.co.uk.
Freepost Your Comments

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol – er enghraifft mewn print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun)**

## Atodiad A

## Ymateb i Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol

**Dechreuodd yr Ymgynghori 21 Ionawr 2026**
**Daeth yr Ymgynghori i ben 4 Mawrth 2026**

**Ymatebion yr Ymgynghoriad**
- 121 ymateb gan gwsmeriaid

**Cyfarfodydd**
Cyfarfu cynrychiolwyr o Swyddfa'r Post â Ms Becky Gittins, AS ar 3 Mawrth 2026.

**Prif faterion a godwyd**
- Parcio
- Staff
- Lle y tu mewn

**Ymateb i'r materion a godwyd**
**Parcio**
Mae parcio ac anhrefn traffig yn ystod yr adegau prysuraf yn broblemau cyffredin mewn sawl man ledled y DG. Er bod y lle sydd ar gael i barcio y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol Swyddfa'r Post Cyfyngedig, gwnaed adolygiad arall o barcio a chadarnhaodd hwnnw y bydd lle i chwe char yn union y tu allan i'r adeilad newydd. Mae yna hefyd faes parcio talu-ac-arddangos sydd â mannau parcio l bobl anabl tua 160 metr o'r adeilad newydd.
**Staff**
Bydd staff yn derbyn hyfforddiant llawn a bydd digon i ateb y galw. Bydd hyfforddiant y staff yn parchu cyfrinachedd cwsmeriaid a bydd yn glynu wrth weithdrefnau diogelwch llym a fydd mewn grym i ddiogelu staff a chwsmeriaid. Yn ogystal, bydd unrhyw staff a fydd yn trafod gweithrediadau masnachol Swyddfa'r Post wedi cwblhau hyfforddiant cydymffurfio mewn nifer o feysydd, gan gynnwys Diogelu Data a Thrafod Post.

**Lle Y Tu Mewn**
Bydd y tu mewn i'r gangen newydd yn gyson â rhagofynion Swyddfa'r Post, gan wneud yn siŵr fod digon o le i'r gwasanaeth Swyddfa Bost redeg ochr yn ochr a'r siop. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r gweithredydd newydd ar gynllun y tu mewn. Bydd rhai celfi gosod a ffitiadau yn cael eu symud neu eu cymryd i ffwrdd i wneud yn siŵr fod y ffordd i'r adeilad yn glir, gan sicrhau fod y fynedfa, y llwybrau a'r man aros yn ddirwystr a bod digon o le i gwsmeriaid a chadair olwyn i symud o gwmpas yn

ddidramgwydd.

**Atodiad B**

# Crynodeb Gwybodaeth Swyddfa Bost Treffynnon

**Mae yna adegau o bosibl pan fydd ein canghennau'n gorfod newid eu horiau agor. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ganghennau ar ein gwefan [www.postoffice.co.uk/branch-finder](www.postoffice.co.uk/branch-finder)**

## Lleoliad newydd

Siop Premier, Maes Fictoria, Treffynnon, Sir y Fflint, CH8 7TR

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Llun | 08:00 – 21:00 |
| Mawrth | 08:00 – 21:00 |
| Mercher | 08:00 – 21:00 |
| Iau | 08:00 – 21:00 |
| Gwener | 08:00 – 21:00 |
| Sadwrn | 08:00 – 21:00 |
| Sul | 08:00 – 21:00 |

## Cynhyrchion a Gwasanaethau

Bydd yr un cynhyrchion a gwasanaethau ar gael o hyd.

## Mannau gwasanaeth

Bydd dau fan gwasanaeth i gyd: un â sgrin ac un â chynllun agored. Cafodd cyfanswm y mannau gwasanaeth ei seilio ar y busnes cyfredol a'r hyn a ddisgwylir.

## Mynediad

Bydd y llawr yn wastad wrth y fynedfa i'r adeilad newydd. Y tu mewn, bydd cownteri gwasanaeth isel, dolenni clyw a lle i gadair olwyn.

## Cyrraedd yno

Bydd y gangen newydd tua 120 metr o'r gangen bresennol, ar hyd tir gwastad. Bydd lle i barcio chwe char yn union y tu allan i'r adeilad newydd. Mae yna hefyd faes parcio talu-ac-arddangos sydd â mannau parcio l bobl anabl tua 160 metr o'r adeilad newydd.

| | |
|---|---|
| **Y cyfleusterau manwerth** | Siop gyfleustra |

Mae’r wybodaeth ddiweddaraf am ganghennau, gan gynnwys canghennau Swyddfa'r Post eraill yn yr ardal, ar ein gwefan

**I gael gwybod mwy am y cynhyrchion fydd ar gael ffoniwch 03457 223344.**
**Mae’r manylion am werth uchaf trafodion ar gael gan bostfeistr y gangen.**

**Rydym yn gwerthu gwasanaethau’r Post Brenhinol a Parcelforce Worldwide.**
**Mae gwasanaethau post cwmnïau eraill hefyd ar gael mewn canghennau penodol.**

| Gwasanaethau ar gael | Y gangen newydd |
|---|---|
| Codi arian parod | ✓ |
| Adneuon Arian Parod | ✓ |
| Adneuon Sieciau | ✓ |
| **Post** | |
| Drop & Go | ✓ |
| Gwasanaethau Parcelforce Express | ✓ |
| Parcelforce Express 48 Mawr | ✓ |
| DPD – Prynu mewn cangen | ✓ |
| DPD - Cyfleusterau Gadael a Chasglu | ✓ |
| **Talu Biliau ac Adlenwi** | |
| Talu Biliau ac Adlenwi | ✓ |
| **Ceisiadau Pasbort** | |
| Gwirio ac Anfon Papur - Newydd ac Adnewyddu | ✓ |
| **Gwasanaethau Adnabod** | |
| Gwasanaeth Ardystio Dogfennau | ✓ |
| **Gyrru** | |
| Treth Cerbydau | ✓ |
| **Teithio** | |
| Arian Tramor | ✓ |
| Yswiriant Teithio | ✓ |
| Cerdyn Arian Teithio | ✓ |
| **Eich Cyllid** | |
| Western Union | ✓ |
| Ffurflenni cais cynilion | ✓ |
| Gwirio Manylion Adnabod Cyfrif Cynilion (am ddim) | ✓ |

## Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)

*Mae fersiwn llawn o'r ddogfen hon ar gael ar ein Hyb Ymgynghori - postofficeviews.co.uk*

**Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilynir yr Egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.**

*Byddwn yn* ***Ymgynghori*** *– pan fyddwn yn chwilio am ymateb i argymhellion cyn gwneud penderfyniad ynghylch:*

- Cau cangen Swyddfa'r Post yn barhaol[5]
- Adleoli cangen Swyddfa'r Post yn barhaol (gan gynnwys masnachfreinio cangen â Rheolaeth Uniongyrchol i safle newydd).

Byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus lleol dros gyfnod o chwe wythnos[6] er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid, cynrychiolwyr etholedig lleol, Cyrff Eirioli Defnyddwyr, ac elusennau dewisol am yr argymhelliad. Bydd yr wybodaeth hon ar gael hefyd ar-lein ac ar gyfer cangen â Rheolaeth Uniongyrchol cyflwynir datganiad newyddion i'r cyfryngau lleol. Byddwn yn gofyn i gynrychiolwyr etholedig lleol rannu gwybodaeth trwy gyfryngau cymunedol eraill (megis hysbysfyrddau, elusennau lleol, cylchgronau, meddygfeydd, etc.). Bydd yr ymgynghoriad yn golygu gofyn cwestiynau penodol pan fyddwn yn dymuno cael adborth ynghylch mynediad i wasanaethau Swyddfa'r Post a bydd yn cadarnhau dyddiad y newid os penderfynir bwrw ymlaen. Byddwn yn rhoi gwybodaeth glir am unrhyw newidiadau i wasanaethau yn ogystal â mynediad i'r gangen newydd ac i mewn iddi.

Rydym yn croesawu pob adborth ac mae'r ffactorau isod yn cael eu hystyried wrth i ni wneud ein penderfyniad; disgwylir y gwneir y penderfyniad hwnnw o fewn pedair wythnos i ddiwedd yr ymgynghoriad:

- Mynediad cwsmeriaid i, i mewn i a'r tu mewn i'r gangen /canghennau newydd neu amgen, gydag ystyriaeth benodol i ddefnyddwyr sydd yn agored i niwed
- Unrhyw faterion cymunedol lleol a allai gael eu heffeithio gan yr argymhelliad neu ddylanwadu arno.

Ar ddiwedd y broses ymgynghorol byddwn yn ysgrifennu at gynrychiolwyr etholedig lleol, Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac ymatebwyr i'r ymgynghoriad (os yw hynny'n ymarferol) er mwyn cadarnhau ein penderfyniad a rhoi crynodeb o'r materion allweddol a godwyd, ynghyd ag ymateb clir i bob un. Bydd yr wybodaeth hon ar gael ar-lein ac yn y gangen (pan fo hynny'n bosibl).

***Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Consumer Scotland a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.***

Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:
Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Consumer Scotland neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i ganfod a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymell unrhyw gamau i'w cymryd ynghylch y cwyn.

**postofficeviews.co.uk Ffoniwch: 03452 66 01 15**

**Comments@postoffice.co.uk Ffôn Testun: 03457 22 33 55**

**FREEPOST Your Comments**

[5] Gall fod nifer fach o achosion pan, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, nad oes gennym unrhyw ddewis ond i gau cangen mewn lleoliad penodol yn barhaol. Mewn achosion o'r fath bydd yr ymgynghoriad yn ceisio adborth ynghylch darparu gwasanaeth Swyddfa'r Post arall yn yr ardal. [6] Os yw'r ymgynghoriad yn cynnwys mwy na phedair wythnos ym mis Gorffennaf yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon neu fwy na phedair wythnos ym mis Awst yng Nghymru a Lloegr, byddwn yn estyn y cyfnod am un wythnos galendr. Ni fyddwn yn dechrau unrhyw ymgynghoriadau cyhoeddus lleol yn ystod y bythefnos sydd yn cynnwys gwyliau banc y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd